

ADRODDIAD Y DYSTYSGRIF SGILIAU IAITH 2015

Hon yw fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Arholwr y Dystysgrif a charwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fy rhoi ar ben y ffordd. Diolch yn benodol i Dr Elin Meek (Prif Arholwr y llynedd) Eiry Miles (Prif Diwtor Sgiliau Iaith) a Joanna Evans (Swyddog Datblygu Data a Gwybodaeth) am fy ngoleuo ynghylch sawl mater a hefyd i staff Swyddfa Ganolog y Coleg Cymraeg, a thiwtoriaid y Dystysgrif am eu gwaith trylwyr.

1. CWMPAS

Dyma'r nifer a safodd arholiad y Dystysgrif yn y gwahanol ganolfannau eleni:

Prifysgol	Nifer o ymgeiswyr
Prifysgol Abertawe	16
Prifysgol Aberystwyth	74
Prifysgol Caerdydd	39
Prifysgol Bangor	58
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	31
Prifysgol De Cymru (yn cynnwys 3 ymgeisydd Cymraeg i Oedolion)	18
Prifysgol y Drindod Dewi Sant (Campws Caerfyrddin ac Abertawe)	60
Cyfanswm	296

O'r 296 ymgeisydd, mae 10 wedi sefyll yr asesiad llafar ond heb gwblhau'r arholiad ysgrifenedig oherwydd amgylchiadau arbennig. Rwyf yn argymhell y dylai'r Bwrdd Arholi ganiatáu i'r ymgeiswyr hyn gadw'r marc llafar a sefyll yr arholiad ysgrifenedig yn y cyfnod arholi nesaf.

Bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr eleni eto (2014 = 157 , 2015 = 296) sy'n gyfystyr â chynnydd o 89%.

2. DATBLYGIADAU

2.1 Arholiadau

Yn sgil y cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr ac yn dilyn argymhelliad y llynedd, lluniwyd dau bapur arholiad eleni a chynhaliwyd sesiwn arholi yn y bore yn ogystal â'r prynhawn ar 6 Mai. Yn dilyn argymhelliad arall a wnaethpwyd y llynedd, penderfynwyd ychwanegu categori Clod eleni ar gyfer y myfyrwyr sy'n llwyddo i ennill 60-69 o farciau.

2.2 Penodiadau

Gwnaed trefniadau mwy ffurfiol eleni i ymgymryd â gwaith y Dystysgrif ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd. Penodwyd Siân Esmor (Bangor), Ursula Byrne (Aberystwyth) ac Anna Loh (Caerdydd) i weithio'n unswydd ar hyfforddi myfyrwyr y Dystysgrif Sgiliau Iaith ac i ddatblygu'r Dystysgrif yn eu sefydliadau.

2.3 Marchnata

Mae'r cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n sefyll yr arholiad yn profi bod y gwaith o farchnata'r Dystysgrif yn llwyddiannus. Braff oedd sylwi bod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn ogystal ag israddedigion yn sefyll yr arholiad eleni. Am y tro cyntaf eleni hefyd safodd tri myfyriwr addysg bellach (Cymraeg i Oedolion) arholiad y Dystysgrif fel rhan o gynllun peilot.

2.4 Hyfforddi

Unwaith eto anogwyd myfyrwyr i fynychu sesiynau hyfforddi ar gyfer y Dystysgrif yn y gwahanol ganolfannau. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi buddiol ar gyfer tiwtoriaid y Dystysgrif hefyd. Roedd cyfle yn ystod y sesiwn hwn i drafod materion megis addasrwydd y Meini Prawf a'r cwestiynau ar gyfer elfennau o'r Dystysgrif.

3 BRAS GANLYNIADAU

Dyma restr o'r niferoedd a roddwyd yn eu gwahanol gategoriâu ar gyfer eleni:

Dyfarniad	Nifer (a chanran)
Rhagoriaeth	76 ymgeisydd (26%)
Clod	113 ymgeisydd (40%)
Llwyddo	70 ymgeisydd (25%)
Methu	27 ymgeisydd (9%)

3.1 Y Dasg Lafar

Gosodwyd yr un dasg â'r llynedd, sef rhoi cyflwyniad (7 munud) ar agwedd ddiddorol ar eu pwnc/maes academiaidd i gymdeithas leol (h.y. llyegwyr). Yn ystod ail hanner y prawf (8 munud) gofynnwyd cwestiynau iddynt yn seiliedig ar eu cyflwyniadau. Roedd yn ofynnol iddynt baratoi adnodd ysgrifenedig neu gyflwyniad Powerpoint fel canllawiau ar gyfer eu cyflwyniadau.

Gwelwyd sampl o 22 tasg lafar. Eleni eto sicrhawyd bod y sampl yn cynnwys enghreifftiau o dasgau o'r pedwar categori (Rhagoriaeth/Clod/Llwyddo/Methu) gan y pum tiwtor.

Roedd marciau terfynol yr asesiad llafar yn amrywio o 45% i 93%. 70 oedd y cymedr a'r gwriad safonol yn 9.6

Newidiwyd rhai marciau yn ystod y broses gymedroli er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y sefydliadau.

Cyflwynwyd pynciau amrywiol a difyr – e.e. Egni Adnewyddadwy, Diswyddo ar Gam, Diwylliant Gwerin yng Nghymru, Moeseg mewn Seicoleg ac Phwysigrwydd Ymarfer Corff ar Ein Cymdeithas.

Dyma rai sylwadau cyffredinol:

Fel arfer mae'n rhaid canmol gwaith cofnodi manwl yr aseswyr a'u cwestiynu pwrpasol yn ystod ail ran y profion.

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cywair llafar priodol wrth lunio cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa leyg.

Byddwn yn argymhell eu bod yn llunio nodiadau ar sail pwyntiau bwled yn unig er mwyn eu hannog i siarad yn naturiol â'u cynulleidfa. Roedd y goreuon eleni yn siarad o'r frest gan gyfeirio at eu nodiadau a'r pwyntiau ar eu cyflwyniadau Powerpoint yn achlysurol.

At ei gilydd roedd yr ymgeiswyr yn hyddysg yng ngeirfa a therminoleg y pynciau a ddewiswyd ganddynt.

3.2 Y Dasg Ysgrifenedig

Defnyddiodd yr ymgeiswyr gyfrifiaduron i gyrchu'r papur drwy'r Porth. Darparwyd copïau papur i'r ymgeiswyr hefyd. Roedd tair tasg ar y papur, sef tasgau tebyg i'r rhai a gyflawnir yn Gymraeg yn y gweithle.

- Golygu darn (a oedd yn cynnwys rhai gwallau y byddai Cysill yn eu codi) - 20%
- Trawsieithu (darn Saesneg i'w grynhoi yn Gymraeg) - 40%
- Ysgrifennu rhydd (darn yn rhoi gwybodaeth i ddarpar gyflogwyr ynghylch eu hastudiaethau/darn yn rhoi gwybodaeth am eu cyrsiau i gynulleidfa o eisteddfodwyr) - 40%

Darparwyd cynlluniau marcio manwl ar gyfer y papurau arholiad.

Gwelwyd sampl o 93 o bapurau, gan gynnwys gwaith ymgeiswyr a oedd yn methu, llwyddo, ennill clod a rhagoriaeth.

Roedd marciau terfynol y papur ysgrifenedig yn amrywio o 32% i 93%. 66 oedd y cymedr a'r gwriad safonol yn 12.1.

Newidiwyd rhai marciau ffiniol er mwyn osgoi ansicrwydd ynghylch dyfarniadau.

Sylwadau cyffredinol

Mae'n bwysig defnyddio'r cymorth cyfrifiadurol sydd ar gael trwy gyfrwng Cysill a gwirydd sillafu Word ymhob un o'r tasgau a osodir yn yr arholiad.

Er mwyn ymgyfarwyddo â'r tasgau, dylai'r ymgeiswyr fynychu'r sesiynau hyfforddi. Mae'r manylion am y tasgau hyn a 'r meini prawf marcio ar gael ar y we hefyd.

Tasg 1 – Golygu darn

Roedd marciau'n amrywio o 0% i 100%. 64.2% oedd y cymedr a'r gwriad safonol yn 22.2.

Hwn oedd y marc isaf ar gyfartaledd a gafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

Byddwn yn annog darpar ymgeiswyr i ddarllen erthyglau Cymraeg safonol (yn nghylchgrawn 'Barn', er enghraifft) a llyfrau Cymraeg er mwyn ehangu eu geirfa ac ymgyfarwyddo ag orgraff a chystrawennau gweithiau amrywiol.

Tasg 2 – Trawsieithu

Roedd y marciau'n amrywio o 32% i 92%. 64.4% oedd cymedr a'r gwriad safonol yn 11.7.

Gwelwyd tuedd unwaith eto eleni i gyfieithu darnau o'r erthygl. Mae hynny'n tanlinellu pwysigrwydd mynychu sesiynau hyfforddi er mwyn ymgyfarwyddo â'r dechneg o drawsieithu.

Byddwn yn argymhell, er enghraifft, eu bod yn darllen y darn yn ofalus gan nodi'r pwyntiau pwysig *cyn* dechrau ysgrifennu. Dylent anelu wedyn at lunio'u trawsieithiad ar sail eu nodiadau yn hytrach na'r darn Saesneg gwreiddiol er mwyn osgoi dylanwad cystrawennau Saesneg.

Llwyddodd yr ymgeiswyr a gafodd farciau da i gynnwys y pwyntiau pwysig mewn Cymraeg graenus heb ddibynnu'n ormodol ar yr erthygl Saesneg.

Tasg 3 – Ysgrifennu Rhydd

Cafodd yr ymgeiswyr farciau uwch ar gyfartaledd am gyflawni'r dasg hon. Roedd y marciau yn amrywio o 43 i 93. 67.9% oedd y cymedr a'r gwyrriad safonol yn 10.7. Cafodd hynny ei adlewyrchu yn safon y gwaith ysgrifenedig a oedd gryn dipyn yn uwch nag yn yr ail dasg, gan eu bod yn gyfarwydd â'u meysydd arbenigol ac yn fwy hyddysg yn y derminoleg sy'n ymwneud â'r meysydd hynny.

Roedd y gwallau arferol yng ngweithiau'r ymgeiswyr na lwyddodd i gael marciau uchel: elfennau fel cystrawennu gwan, camdreiglo, diffyg strwythuro a pharagraffu. Serch hynny, gallai llawer o'r ymgeiswyr a gafodd farc llwyddo a chlod hefyd fod wedi gwella'u hatebion pe baen nhw wedi rhoi sylw i'r elfennau a ganlyn. Defnyddio'r cywair priodol. Mae'r cwestiwn a osodwyd yn y papur cyntaf yn gofyn am erthygl ar gyfer eisteddfodwyr ar sgrin-gyffwrdd ar y Maes. Dylai cywair darn felly fod yn fwy anffurfiol na'r dasg o ddarparu darn ar gyfer cyflogwyr a osodwyd yn yr ail bapur.

Sicrhau eu bod yn ateb y ddwy elfen a geir yn y ddau bapur. Yn y papur cyntaf gofynnwyd am amlinellu cynnwys y pwnc yn ogystal â'i bwysigrwydd i'r byd cyfoes. Yn y ail bapur gofynnwyd am y budd personol a gawsant ynghyd â'r modd yr oedd wedi'u paratoi at y byd gwaith.

4.0 Y DYFODOL

Ar hyn o bryd ni ddyfernir y Dystysgrif Sgiliau iaith i'r ymgeiswyr hynny sy'n methu naill ai'r prawf llafar neu'r arholiad ysgrifenedig. Eleni, methodd 3 ymgeisydd y prawf llafar a 27 ymgeisydd yr arholiad ysgrifenedig. Rwy'n argymhell yn gryf y dylid mabwysiadu trefn sy'n nodi'n fanylach allu ieithyddol yr ymgeiswyr. Er enghraifft: Tystysgrif Sgiliau Iaith (llafar ac ysgrifenedig/llafar yn unig/ysgrifenedig yn unig)

Fy rheswm dros nodi hyn yw bod llawer o fyfyrwyr yn methu'r Dystysgrif gyfan er bod eu gwaith llafar (neu ysgrifenedig) yn ddigon safonol. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr hynny yn medru cyflwyno tystiolaeth fanylach ynghylch eu gallu ieithyddol pan fyddant yn ymgeisio am swyddi maes o law.